



## **POLISI RHODDI MODDION YSGOL BRO PLENYDD**

- Nid oes unrhyw ofynion cyfreithiol na chytundebol ar athro/athrawes ddarparu na goruchwyllo meddyginiaeth na chefnogi anghenion meddygol plentyn. Mae unrhyw ran a gymerir yn gwbl wirfoddol.
- Yn Ysgol Bro Plenydd cytuna'r Pennaeth, gyda chefnogaeth y corff llywodraethol, ddarparu meddyginiaeth i ddisgyblion yn yr ysgol.
- Cytuna staff dysgu yr ysgol hon ddarparu meddyginiaeth i'r disgyblion a hynny ar sail wirfoddol.
- Er hynny, mynna'r ysgol:
  - lle bynnag y bo modd, dylai rhieni disgyblion sydd angen meddyginiaeth yn ystod oriau'r ysgol ddod i'r ysgol i'w darparu i'w plant.
- Anogwn rieni drafod amseriad ac amllder y dogn gyda'u meddyg teulu. Gallai fod yn bosibl i'r meddyg teulu ddarparu meddyginiaeth y gellir ei chymryd cyn ac ar ôl ysgol.
- Os dymuna'r rhieni i'r ysgol ddarparu'r feddyginiaeth yn ystod oriau'r ysgol yna:
  - rhaid iddynt wneud cais ffurfiol drwy lenwi ffurflen AM2 (gweler atodiad); mae hon ar gael yn yr ysgol
  - mae'n angenrheidiol i'r Pennaeth gytuno'n ffurfiol â'r cais cyn y rhoddir y feddyginiaeth; gwneir hyn drwy lenwi ffurflen AM3 (gweler atodiad) a'i ddychwelyd i'r rhieni.
- Gofynnwn i'r rhieni ddarparu cyn lleied o feddyginiaeth ag sydd ei angen ar gyfer pob diwrnod ysgol. Nid ydym yn barod i dderbyn potel llawn o foddion neu dabledi.
- Ni fydd yr ysgol yn derbyn unrhyw feddyginiaeth nad yw yn ei gynhwysydd gwreiddiol.
- Rhaid i bob meddyginiaeth fod wedi ei labelu yn eglur gydag enw a dosbarth y disgybl ac amllder y dogn.
- Ni ddylai staff fyth drosglwyddo meddyginiaeth o'i gynhwysydd gwreiddiol i un arall oni bai fod y cynhwysydd gwreiddiol wedi malu. Mewn achos o'r fath, dylid labelu'r

cynhwysydd newydd yn eglur gyda'r holl wybodaeth a oedd ar label yr un gwreiddiol. Hysbyswn y rhieni o unrhyw ddifrod i gynhwysyddion.

- Os yw plentyn i gymryd mwy nag un feddyginiaeth, dylid storio pob un mewn cynhwysydd unigol.
- Heblaw am anadlwyr asthma, meddyginiaethau sy'n rhaid eu cadw yn yr oergell a rhai angenrheidiol mewn argyfwng, cedwir pob un arall mewn cwpwrdd/cabinet sydd wedi ei gloi.
- Cyfrifoldeb y Pennaeth yw sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o ble cedwir yr allwedd i'r cwpwrdd meddygol.
- Hysbysir disgybl o lle cedwir ei feddyginiaeth a chan bwy mae'r allwedd iddo.
- Cedwir meddyginiaeth sydd angen ei chadw yn yr oergell - un yr ysgol yn yr ystafell fwyta sydd, hefyd, yn cynnwys bwyd. Mae'n angenrheidiol i'r feddyginiaeth yma fod mewn cynhwysydd seliedig ac wedi ei labelu'n eglur.
- Bydd mynediad i'r oergell hon wedi ei chyfyngu i staff y gegin, y Pennaeth a'r staff dysgu yn unig.

## ANADLYDDION ASTHMA

- Bydd meddyginiaeth asthma ar gael yn hawdd ac ni fydd wedi ei gloi. Bydd wedi ei storio mewn man diogel lle nad oes gan ddisgyblion hawl mynediad, e.e. cwpwrdd yr athro/athrawes.
- Os yw rhieni am i'r disgyblion gario eu hanadlwyr asthma eu hunain, rhaid i'r ysgol dderbyn cais ffurfiol ar ffurflen AM5 (gweler atodiad) gan y rhieni cyn y gellir caniatáu arfer o'r fath. Mae'r ffurflen ar gael yn yr ysgol.
- Fodd bynnag, mynna'r ysgol:
  - a) na ddylai disgyblion gymryd meddyginiaeth asthma dim ond pan fo ei angen
  - b) y dylent ei gadw'n ddiogel ar bob achlysur ac nad yw ar gael i unrhyw ddisgybl arall ond hwy eu hunain
  - c) bod y disgybl yn ddigon aeddfed a chyfrifol i sicrhau bod ei feddyginiaeth ganddo pan fo ei angen.

## STAFF YN RHOI MEDDYGINIAETH

- Ni fydd unrhyw aelod o'r staff dysgu yn darparu meddyginiaeth i ddisgyblion heb fod:
  - a) yn llawn ymwybodol o'r gweithdrefnau a amlygir yn y polisi hwn
  - b) wedi derbyn yr hyfforddiant cywir ynglyn â rhoi'r feddyginiaeth.
- Ni fydd unrhyw aelod o staff yr ysgol hon yn rhoi unrhyw ffurf o aspirin na pharacetamol i ladd poen i unrhyw blentyn.
- Wrth roi meddyginiaeth i ddisgybl, rhaid i staff wirio:
  - ei enw
  - dogn
  - amllder y ddogn
  - dyddiad terfynu'r feddyginiaeth
  - unrhyw gyfarwyddiadau arall a ddarparwyd gan y meddyg teulu neu riant.
- Bydd pob aelod o staff yn cwblhau taflen gofnod AM4 (gweler atodiad) wrth roi meddyginiaeth i ddisgybl.
- Os bydd disgybl yn dioddef unrhyw sgîl effeithiau anffafriol yn dilyn cymryd y feddyginiaeth, bydd y Pennaeth yn hysbysu'r rhieni yn syth wedi eu canfod.
- Os yw disgybl yn gwrthod cymryd ei feddyginiaeth, ni fydd yn cael ei orfodi i'w gymryd. Hysbysir y rhieni o hynny.
- Bydd y staff dysgu a'r Pennaeth yn gwneud eu gorau i sicrhau y caiff preifatrwydd a balchder y disgybl eu hamddiffyn, hyd yn oed mewn sefyllfa o argyfwng.
- Ni fydd yr ysgol yn darparu triniaeth bersonol neu ymyrgar ar ddisgybl os nad yw'n fater o argyfwng.

## SEFYLLFA O ARGYFWNG

- Nid yw'r ysgol yn darparu meddyginiaeth mewn argyfwng, dim ond ar gyfer disgyblion y rhagnodwyd meddyginiaeth ar eu cyfer. Mewn achos o argyfwng, bydd y feddyginiaeth ar gael yn hwylus ond mewn lle diogel o fewn y dosbarth (e.e. cwpwrdd yr athro). Bydd y disgybl a phob aelod o'r staff dysgu yn cael eu hysbysu o ble mae'r feddyginiaeth ac ym mhle mae'r allwedd.
- Os yw disgybl yn gwrthod meddyginiaeth mewn sefyllfa o argyfwng, e.e. pigiad adrenalin mewn achos o anaffylacsis byddwn yn galw cymorth meddygol proffesiynol ac yn hysbysu'r rhieni yn syth.

## **RHOI MODDION MEWN GWEITHGAREDDAU ODDI AR SAFLE**

- Yn ystod gweithgareddau oddi ar safle'r ysgol, e.e. nofio neu ymweliad addysgol bydd unrhyw feddyginiaeth yn cael ei gario gan un ai yr aelod o staff sy'n gyfrifol am y gweithgaredd neu'r un gyda hyfforddiant cymorth cyntaf.
- Ni chaniateir disgybl gymryd rhan yn y gweithgaredd os nad yw ei feddyginiaeth ar gael. Goruchwylir disgybl sydd angen ei feddyginiaeth ar frys yn ofalus gan yr aelod o staff sy'n cario'r feddyginiaeth.
- Rhoddir caniatad i ddisgyblion yr ystyrir eu bod yn ddigon cyfrifol i gymryd cyfrifoldeb am eu meddyginiaeth asthma i'w cario gyda hwy, cyn belled â bod cais ffurfiol wedi ei wneud gan y rhiant.

## **GWAREDU MODDION**

- Ni chaiff staff wared o unrhyw feddyginiaeth sydd heb ei ddefnyddio. Cyfrifoldeb y rhiant fydd hyn. Bydd yr ysgol yn gofyn i riant ddod i gasglu unrhyw feddyginiaeth sydd heb ei ddefnyddio.
- Os yw meddyginiaeth disgybl yn gorffen neu ei ddyddiad yn terfynu, cyfrifoldeb y rhieni yw ei ailgyflenwi.

Gwrthoda yr ysgol ddarparu meddyginiaeth i unrhyw ddisgybl os na chedwir yn gaeth at y canllawiau uchod.